Julia Adams
Ysgol Gynradd Y Bont-faen
Borough Close
Y Bont-faen
CF71 7BN

23/07/2025

Annwyl Julia Adams

**Ymweliad interim:** Gorffennaf 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Y Bont-faen yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â dwy o'i blaenoriaethau gwella. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Ymgorffori'r ymagwedd CPA at fathemateg i ddyfnhau dealltwriaeth fathemategol a dysgu disgyblion

- Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gydag ysgolion lleol i wella addysgu mathemateg a rhifedd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu ymagwedd yr ysgol at ddefnyddio offer ymarferol a deunydd gweledol i ddyfnhau dealltwriaeth fathemategol disgyblion.
- Mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant defnyddiol i staff sy'n canolbwyntio ar y dilyniant o ddefnyddio adnoddau diriaethol i luniau a symbolau. Ar draws yr ysgol, mae staff yn annog disgyblion i ddefnyddio adnoddau fel ciwbiau, cownteri a darnau arian i gefnogi eu meddwl mathemategol.
- Ym mwyafrif y dosbarthiadau, lle mae'r ymagwedd hon wedi hen ennill ei phlwyf, mae disgyblion yn defnyddio adnoddau a lluniau i gefnogi ac ymestyn eu meddwl yn dda. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 3, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ffeithiau lluosi trwy greu grwpiau o rifau gyda chiwbiau neu drwy ddarluniau.

- Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dechrau archwilio ystod o ymagweddau i gefnogi eu dulliau datrys problemau, er enghraifft defnyddio nodion neu luniau. Mae'r dulliau hyn yn helpu disgyblion i ddychmygu problemau a threfnu eu meddwl yn rhesymegol.
- Yn y dosbarthiadau ar gyfer y disgyblion ieuengaf, mae amgylcheddau dysgu yn darparu digonedd o gyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth fathemategol disgyblion trwy chwarae ac archwilio. Er enghraifft, mae siop ardd yn darparu cyfleoedd uniongyrchol i gyfrif, archwilio mesurau a thrin arian.
- Ym mhob dosbarth, mae staff yn cefnogi meddwl mathemategol disgyblion gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn cydnabod bod angen cryfhau ystod yr adnoddau sydd ar gael yn hygyrch i ddisgyblion, yn enwedig yn y dosbarthiadau hŷn.

## Datblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion ymhellach ar draws yr ysgol

- Mae athrawon yn defnyddio ymagwedd systematig at ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion sy'n meithrin eu gwybodaeth am ramadeg, geirfa a sillafu yn raddol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb cryf yn y profiadau sydd ar gael i ddisgyblion heb atal creadigrwydd disgyblion nac athrawon.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gyflwyno a defnyddio drama fel rhan o'u taith ysgrifennu. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu rhinweddau empathi, mynegiant a dychymyg sy'n ategu eu hysgrifennu yn fuddiol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn deall sut mae nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu yn helpu cyfleu ystyr yn effeithiol. Maent yn cymhwyso'r ddealltwriaeth hon yn fedrus i gynhyrchu ysgrifennu estynedig dychmygus ac addysgiadol sy'n gweddu'n dda i'w ddiben a'i gynulleidfa benodol.
- Mae athrawon yn gwneud defnydd da o gyd-destunau ystyrlon ar gyfer ysgrifennu disgyblion. Maent yn dechrau darparu mwy o gyfle i ddisgyblion hŷn ddefnyddio'u medrau ysgrifennu i gyfathrebu am ddiddordebau penodol sy'n eu hysbrydoli.
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau buddiol i gynllunio'u hysgrifennu a chreu drafftiau trefnus. Mae disgyblion hŷn yn myfyrio'n feddylgar ar eu hysgrifennu ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth a chyfleoedd i wella'u gwaith. Mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth soffistigedig o sut i wella'u hysgrifennu ac yn ymfalchïo yn y cynnydd a wnânt.
- Mae staff yn defnyddio dysgu proffesiynol i ymestyn eu medrau a'u gwybodaeth yn fuddiol. Maent yn ystyried yn ofalus sut i ymestyn eu haddysgu, gan ganolbwyntio'n briodol ar yr agweddau hynny sydd angen eu mireinio ymhellach.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru | For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/y-bont-faen-primary-school-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol